CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD COMMUNITY COUNCIL

Clerc : Mrs Elizabeth H.Davies B.A.

Gerallt,
Carmel,
Caernarfon,
Gwynedd.
LL54 7AW

Ffôn : 01286 880843

31 Awst 2006

Ann Jones,
Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus,
(Trefniadau Etholiadol),
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
CF99 1NA

Annwyl Fadam,

Trefniadau Etholiadol

Dyma sylwadau'r Cyngor ar y ddogfen Trefniadau Etholiadol.

Yn gywir,
E H Davies
Elizabeth H. Davies,
Clerc

Cofrestru Pleidleiswyr

1. Nid ydym o'r farn y dylid cosbi pobl am beidio â chofrestru

3. Credwn y byddai cymhlethu'r broses gofrestru a phleidleisio gyda dull adnabod personol yn golygu y byddai llai o bobl yn cofrestru ac yn pleidleisio

4. Nid oes gennym wrthwynebiad i gofrestru awtomatig.

Dulliau Pleidleisio

6. Nid ydym o blaid trefn bleidleisio trwy'r post yn unig gan y byddai'n agored i gael ei chamddefnyddio i ddylanwadu'n amhriodol ar rhai pleidleiswyr e.e yr henoed bregus.

7. Rhaid bod yn ofalus iawn gyda dulliau electroneg gan eu bod yn agored i'w camddefnyddio ac i dwyll.

8. Nid oes gennym wrthwynebiad i ddefnyddio gorsafoedd pleidleisio mewn archfarchnadoedd ac ati os yw hynny'n ymarferol.

Y ganran sy'n pleidleisio

9. Credwn fod dau brif reswm paham fod cyn lleied o bobl yn pleidleisio yng Nghymru. Yn gyntaf mae pobl wedi laru ar glywed a gweld gwleidyddion yn ymddwyn yn blentynaidd, yn beirniadu ei gilydd ar seiliau amheus, yn anghytuno er mwyn anghytuno, ac yn ceisio rhoi sbin ar bopeth. Yn ail, nid yw pobl yn teimlo fod eu pleidlais yn cyfrif; byddai trefn o bleidleisio cyfrannol yn gymorth i leihau'r teimlad hwnnw.

10 – 12. Credwn ei bod yn bwysig fod disgyblion ysgolion uwchradd yn cael cyfleoedd i drafod materion pwysig y dydd o safbwyntiau cenedlaethol a lleol. Dylent fod yn ymwybodol pa lefel o lywodraeth sy'n gyfrifol am wahanol bolisiau a gwasanaethau. Dylent hefyd gael y cyfle i gymryd rhan mewn dadleuon gwleidyddol e.e ffug senedd (Caerdydd a Llundain) neu gyngor a ffug etholiadau.

Cofrestru a phleidleisio: mynediad

14. Credwn y dylid gwneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i alluogi rhai ag anableddau i bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio.

18. Byddai'n dda o beth i ofalwyr gorsafoedd pleidleisio orfod paratoi adroddiadau fel hyn.

Iaith

19 a 21. Credwn fod y dogfennau a'r cyngor a geir ar y cyfan yn foddhaol ond dylid ymdrechu bob amser i'w gwneud yn fwy eglur a syml mewn Cymraeg a Saesneg clir.